



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 4001 (Cy.329)

2001 No. 4001 (W.329)

CEFN GWLAD, CYMRU

COUNTRYSIDE, WALES

**Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad
(Mapiau Drafft) (Cymru) 2001**

**The Countryside Access (Draft
Maps) (Wales) Regulations 2001**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note does not form part of the Regulations)

O dan adran 11 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ("y Ddeddf"), gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu drwy reoliadau y gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth baratoi mapiau, yn unol ag adran 4(2) o'r Ddeddf, ac a fydd yn dangos pob tir agored (fel y diffinnir y term cyfatebol Saesneg 'open country' gan y Ddeddf) a phob tir comin cofrestredig yng Nghymru. Mae hawl y cyhoedd i gael mynediad o dan adran 2 o'r Ddeddf yn cael ei diffinio drwy gyfeirio at y mathau hyn o dir, yn ddarostyngedig i eithriadau ac ychwanegiadau penodol a nodir yn y Ddeddf.

Mae Rheoliad 3 yn nodi'r gweithdrefnau a'r gofynion ar gyfer paratoi mapiau drafft gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ("y Cyngor") o dan Ran 1 o'r Ddeddf, gan gynnwys darparu ynghylch ffurf a graddfa mapiau drafft nad ydynt i fod ar raddfa sy'n llai nag 1:10,000 (neu, os nad yw'n bosibl sicrhau'r raddfa honno drwy ddefnyddio'r dechnoleg mapiau sylfaen sydd ar gael yn rhesymol i'r Cyngor, y raddfa fwyaf sy'n ymarferol drwy ddefnyddio'r dechnoleg sylfaen mapiau honno) ond sy'n darparu pŵer i gopïau gael eu paratoi a'u cyhoeddi ar raddfeydd gwahanol, os yw'n briodol.

Mae Rheoliad 3(3) yn ei gwneud yn ofynnol bod mapiau neu fapiau mewnosod ar raddfa fwy yn cael eu paratoi os yw'n angenrheidiol neu'n ddymunol gwneud hynny er mwyn ddangos ffin tir adran 4(2) yn gywir.

Mae Rheoliad 3(5) yn ei gwneud yn ofynnol bod mapiau drafft (gan gynnwys mapiau mewnosod) yn cael eu paratoi ar ffurf electronig ac eithrio os nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny

Under section 11 of the Countryside and Rights of Way Act 2000 ("the Act"), the National Assembly for Wales may by regulations provide the procedures to be followed in the preparation of maps, in accordance with section 4(2) of the Act, which will show all open country (as defined by the Act) and all registered common land in Wales. The public right of access under section 2 of the Act is defined by reference to these kinds of land, subject to certain exceptions and additions set out in the Act.

Regulation 3 sets out the procedures and requirements for the preparation of draft maps by the Countryside Council for Wales ("the Council") under Part I of the Act, including provision as to the form and scale of draft maps which are to be at a scale of not less than 1:10,000 (or, if it is not possible to achieve that scale using the base map technology reasonably available to the Council, the largest scale practicable using that base map technology) but provides a power for copies to be prepared and published on different scales, if appropriate.

Regulation 3(3) requires larger scale maps or insets to be prepared where it is necessary or desirable to do so in order to show the boundary of section 4(2) land accurately.

Regulation 3(5) requires draft maps (including inset maps) to be prepared in electronic form unless it is not reasonably practicable to do so.

Mae Rheoliad 4 yn sefydlu'r gweithdrefnau ar gyfer dyroddi a chyhoeddi map drafft ar ôl iddo gael ei baratoi.

Mae Rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd ynghylch darpariaethau mapiau drafft yn gyffredinol.

Mae Rheoliad 6 yn sefydlu'r gweithdrefnau ynghylch ymgynghori ynglyn â mapiau drafft sydd wedi'u dyroddi.

Mae Rheoliad 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch cadarnhau mapiau drafft, boed hynny gydag addasiadau neu beidio.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â dyroddi mapiau drafft sydd wedi'u cadarnhau a'u dyroddi ar ffurf dros dro o dan adran 5(d) neu (e) o'r Deddf nac yn ymwneud â'r hawl i apelio yn erbyn y mapiau drafft sydd wedi'u cadarnhau a'u dyroddi felly, nac ynghylch dyroddi mapiau ar eu ffurf derfynol. Bydd y gweithdrefnau ar gyfer hyn oll yn destun Rheoliadau pellach.

Regulation 4 establishes the procedures for the issue and publication of a draft map after it has been prepared.

Regulation 5 requires the Council to publicise the provisions of draft maps generally.

Regulation 6 establishes the procedures relating to consultation on draft maps which have been issued.

Regulation 7 makes provision relating to the confirmation of draft maps, whether with or without modifications.

These Regulations do not relate to the issue of draft maps which have been confirmed and issued in provisional form under section 5(d) or (e) of the Act or to the right of appeal against the draft maps as so confirmed and issued, or as to the issue of maps in conclusive form, the procedures for all of which will be the subject of further Regulations.

2001 Rhif 4001 (Cy.329)**2001 No. 4001 (W.329)****CEFN GWLAD, CYMRU****COUNTRYSIDE, WALES****Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad
(Mapiau Drafft) (Cymru) 2001****The Countryside Access (Draft
Maps) (Wales) Regulations 2001***Wedi'u gwneud* 13 Rhagfyr 2001*Made* 13th December 2001*Yn dod i rym* 1 Ionawr 2002*Coming into force* 1 January 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 11 a 44 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(a) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred upon it by sections 11 and 44 of the Countryside and Rights of Way Act 2000(a) hereby makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso**Citation, commencement and application**

1.- (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2002.

1.- (1) These Regulations may be cited as the Countryside Access (Draft Maps) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 1 January 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru,

(2) These Regulations apply to Wales.

Dehongli**Interpretation**

2.- (1) Yn y Rheoliadau hyn:

2.- (1) In these Regulations:

ystyr "awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol" ("*relevant National Park authority*"), mewn perthynas â map drafft, yw awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae ei ardal yn cynnwys ardal sydd wedi'i chynnwys yn y map drafft hwnnw;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Countryside and Rights of Way Act 2000;

references to the "confirmation" ("*cadarnhau*") of a draft map are references to its confirmation in accordance with section 5(c) of the Act;

ystyr "awdurdod lleol perthnasol" ("*relevant local authority*"), mewn perthynas â map drafft, yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol y mae ei ardal yn cynnwys ardal sydd wedi'i chynnwys yn y map drafft hwnnw;

"consultation period" ("*cyfnod ymgynghori*") means the period referred to in Regulation 4(2)(h);

"the Council" ("*y Cyngor*") means the Countryside Council for Wales;

mae i "buddiant" yr ystyr a roddir i "*interest*" gan adran 45(1) o'r Ddeddf;

"draft map" ("*map drafft*") means a map issued by the Council in accordance with section 5(a) of the Act;

mae cyfeiriadau at "*cadarnhau*" ("*confirmation*") map drafft yn gyfeiriadau at ei gadarnhau yn unol ag adran 5(c) o'r Ddeddf;

"electronic form" ("*ffurf electronig*") means a form capable of being stored on, transmitted to and from, and read by means of a computer;

ystyr "cyfnod ymgynghori" ("*consultation period*") yw'r cyfnod y cefeirir ato yn rheoliad 4(2)(f);

"inset map" ("*map mewnosod*") means a map showing part only of the area to which a draft map relates and to a larger scale than that draft map and whether appearing on or annexed to the draft map;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru;

(a) 2000 p.37. Mae'r cyfeiriad yn adran 11 at reoliadau yn golygu, mewn perthynas â Chymru, reoliadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler diffiniad "regulations" yn adran 45(2)).

(a) 2000c.37. The reference in section 11 to regulations means, regulations made by the National Assembly for Wales (see the definition of "regulations" in section 45(2)).

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;

ystyr "fforwm mynediad lleol" ("*local access forum*") yw corff ymgynghorol a sefydlwyd o dan adran 94 o'r Ddeddf;

ystyr "fforwm mynediad lleol perthnasol" ("*relevant local access forum*"), mewn perthynas â map drafft, yw fforwm mynediad lleol y mae'r ardal y mae wedi'i sefydlu ar ei chyfer yn cynnwys ardal sydd wedi'i chynnwys yn y map drafft hwnnw;

ystyr "ffurf electronig" ("*electronic form*") yw ffurf y gellir ei storio, ar gyfrifiadur, ei drosglyddo iddo ac ohono, a'i darllen drwy gyfrwng cyfrifiadur;

ystyr "map drafft" ("*draft map*") yw map sy'n cael ei dyroddi gan y Cyngor yn unol ag adran 5(a) o'r Ddeddf;

ystyr "map mewnosod" ("*inset map*") yw map sy'n dangos rhan yn unig o'r ardal y mae map drafft yn berthnasol iddi ac ar raddfa fwy na'r map drafft boed hwnnw'n ymddangos ar y map drafft neu wedi'i atodi iddo;

mae "person" ("*person*") a "personau" ("*persons*") yn cynnwys unigolion, corfforaethau a chyrrff anghorfforedig;

ystyr "tir adran 4(2)" ("*section 4(2) land*") yw'r tir comin cofrestredig a'r tir agored y mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi mapiau ar eu cyfer yn unol ag adran 4(2) o'r Ddeddf;

mae i "tir agored" yr ystyr a rhoddir i "*open country*" gan adran 1(2) o'r Ddeddf;

mae i "tir comin cofrestredig" yr ystyr a rhoddir i "*registered common land*" gan adran 1(3) o'r Ddeddf;

ystyr "wedi'i ddyroddi" neu "wedi'u dyroddi" ("*issued*") yw wedi'i ddyroddi neu wedi'u dyroddi gan y Cyngor yn unol ag adran 5(a) o'r Ddeddf.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn, ac mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad hwnnw.

(3) Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod sy'n cael ei ddatgan yn y Rheoliadau hyn yn gyfnod o ddyddiad a roddir, nid yw'r dyddiad hwnnw i'w gynnwys ac os yw'r diwrnod neu'r diwrnod olaf y mae'n ofynnol gwneud unrhyw beth arno o dan y Rheoliadau hyn, neu'n unol â hwy yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn ddydd Gwener y Groglith, yn wyl banc neu'n ddiwrnod sydd wedi'i bennu ar gyfer diolchgarwch neu alar cyhoeddus, bernir bod y gofyniad yn ymwneud â'r dydd cyntaf ar ôl hynny nad yw'n un o'r dyddiau uchod.

"interest" ("*buddiant*") has the meaning given by section 45(1) of the Act;

"issued" ("*wedi'i ddyroddi*" or "*wedi'u dyroddi*") means issued by the Council in accordance with section 5(a) of the Act;

"local access forum" ("*fforwm mynediad lleol*") means an advisory body established under section 94 of the Act;

"open country" ("*tir agored*") has the meaning given by section 1(2) of the Act;

"person" ("*person*") and "persons" ("*personau*") include individuals, corporations and unincorporated bodies;

"registered common land" ("*tir comin cofrestredig*") has the meaning given by section 1(3) of the Act;

"relevant local access forum" ("*fforwm mynediad lleol perthnasol*") means, in relation to a draft map, a local access forum in respect of which the area for which it is established includes an area contained in that draft map;

"relevant local authority" ("*awdurdod lleol perthnasol*") means, in relation to a draft map, a county or county borough council whose area includes an area contained in that draft map;

"relevant National Park authority" ("*awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol*") means, in relation to a draft map, a National Park authority for a National Park whose area includes an area contained in that draft map;

"section 4(2) land" ("*tir adran 4(2)*") means the registered common land and open country in respect of which the Council is required to prepare maps in accordance with section 4(2) of the Act.

(2) In these Regulations, unless the context otherwise requires, any reference to a numbered regulation is a reference to the regulation bearing that number in these Regulations, and any reference in a regulation to a numbered paragraph is a reference to the paragraph bearing that number in that regulation.

(3) In reckoning any period which is expressed in these Regulations to be a period from a given date, that date is to be excluded and, where the day or the last day on which anything is required by, or in pursuance with, these Regulations to be done is a Sunday, Christmas Day, Good Friday, bank holiday or a day appointed for public thanksgiving or mourning, the requirement shall be deemed to relate to the first day thereafter which is not one of the days before-mentioned.

Paratoi map drafft

3.-(1) Gall map drafft sy'n cael ei baratoi gan y Cyngor ymwneud ag unrhyw ardal a benderfynnir gan y Cyngor, o ystyried ffiniau awdurdodau lleol, yr ardaloedd y mae fforymau mynediad lleol wedi'u sefydlu ar eu cyfer, ffiniau Parciau Cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a lleoliad nodweddion naturiol a nodweddion daearyddol eraill, gan gynnwys mynyddoedd, afonydd a phrifyrdd.

(2) Gall sylfaen y map y mae map drafft yn cael ei dynnu arni gynnwys ardaloedd y bwriedir dangos tir adran 4(2) mewn perthynas â hwy fel tir o'r fath ar fap drafft arall ond yn yr achos hwnnw rhaid i sylfaen y map nodi'n glir ffiniau'r ardal y mae'n fap drafft ohoni.

(3) Rhaid paratoi map drafft ar raddfa nad yw'n llai na 1:10,000 neu, os nad yw'n bosibl sicrhau'r raddfa honno drwy ddefnyddio'r dechnoleg mapiau sylfaen sydd ar gael yn rhesymol i'r Cyngor, y raddfa fwyaf sy'n ymarferol drwy ddefnyddio'r dechnoleg mapiau sylfaen honno, ond os yw'n angenrheidiol neu'n ddymunol er mwyn dangos rhan o ffin unrhyw dir adran 4(2) yn gywir fod map drafft, neu fap mewnosod, yn cael ei baratoi ar raddfa fwy, rhaid i'r Cyngor wneud hynny naill ai drwy baratoi map drafft ar y raddfa fwy honno neu drwy gynnwys map mewnosod ar y raddfa fwy honno ar fap drafft o'r ardal gyffredinol neu drwy ei atodi iddo ac, os nad oes map mewnosod wedi'i gynnwys ar y map drafft ei hun, drwy nodi ar yr ardal perthnasol o'r map drafft y ffaith fod map mewnosod o'r ardal honno wedi'i baratoi a sut y gellir cael gafael ar y map mewnosod hwnnw.

(4) Os yw ffin darn o dir adran 4(2) yn cael ei dangos ar y map drafft o'r ardal gyffredinol ac ar fap mewnosod ar raddfa fwy a baratowyd yn unol â pharagraff (3) mae'r ffordd y mae'r ffin honno wedi'i dynodi ar y map mewnosod i'w chymryd fel y ffordd y mae wedi'i dynodi ar y map drafft.

(5) Ac eithrio os nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, rhaid paratoi map drafft, ac unrhyw fap mewnosod, ar ffurf electronig ond rhaid ei fod yn medru cael ei atgynhyrchu ar ffurf printiedig a rhaid i'r Cyngor sicrhau bod modd rhwydd o adnabod y map drafft ac unrhyw fap mewnosod sy'n ymwneud ag ef fel y cyfryw bob amser.

(6) Rhaid i fap drafft nodi ar wahân y darnau hynny o dir adran 4(2) sy'n cynnwys tir agored, a'r rhai sy'n cynnwys tir comin cofrestredig, a gall nodi unrhyw nodweddion perthnasol eraill, drwy ddefnyddio unrhyw liwiau, cysgodiad, llinellau a symbolau gwahanol y gwêl y Cyngor yn dda ond rhaid i bob map drafft ac unrhyw gopiau o fapiau drafft a gynhyrchir o dan baragraff (7) ddangos pob dosbarth felly ar dir adran 4(2) a phob nodwedd arall o'r fath drwy ddefnyddio'r lliwiau, y cysgodiad, y llinellau neu'r symbolau cyfatebol eraill yn ôl fel y digwydd.

Preparation of draft map

3.- (1) A draft map prepared by the Council may relate to such area as the Council may determine, having regard to local authority boundaries, the areas for which local access forums have been established, the boundaries of National Parks and of areas of outstanding natural beauty and the location of natural and other geographical features including mountains, rivers and highways.

(2) The map base on which a draft map is drawn may include areas in respect of which section 4(2) land is intended to be shown as such on another draft map but in such case the map base must clearly identify the boundaries of the area in respect of which it is the draft map.

(3) A draft map must be prepared to a scale of not less than 1:10,000 or, if it is not possible to achieve that scale using the base map technology reasonably available to the Council, the largest scale practicable using that base map technology, but where it is necessary or desirable for the purpose of accurately showing a part of the boundary of any section 4(2) land that the draft map, or an inset map, be prepared to a larger scale, the Council must do so either by preparing a draft map to such larger scale or by including on or annexed to a draft map of the general area an inset map to such larger scale and, where an inset map is not included on the draft map itself, by noting on the relevant area of the draft map the fact that an inset map of that area has been prepared and how access to that inset map is to be obtained.

(4) Where the boundary of an area of section 4(2) land is shown both on the draft map of the general area and on a inset map of larger scale prepared in accordance with paragraph (3) the representation of that boundary on the inset map is to be taken to be its representation on the draft map.

(5) A draft map, and any inset map, must, unless it is not reasonably practicable to do so, be prepared in electronic form but must be capable of being reproduced in printed form and the Council must ensure that the draft map and any inset map relating to it is at all times readily identifiable as such.

(6) A draft map must separately identify those areas of section 4(2) land which consist of open country, and those which consist of registered common land, and may identify any other relevant features, by the use of such different colours, shading, lines and symbols as the Council may think fit but all draft maps and any copies of draft maps produced under paragraph (7) must show each such class of section 4(2) land and all such other features by use of the corresponding colours, shading, lines or other symbols as the case may be.

(7) At ddibenion cyflawni ei ddyletswydd i ddyroddi map drafft o dan adran 5(a) o'r Ddeddf, neu at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â hynny, gall y Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi copïau o'r map drafft ar unrhyw ffurf, gan gynnwys ffurf electronig, y mae'n penderfynu arni a bernir bod unrhyw gopi o'r fath a gyhoeddir gan y Cyngor neu gyda'i awdurdod yn union yr un fath â'r map drafft oni ddangosir i'r gwrthwyneb.

(8) Rhaid i'r Cyngor, er mwyn darlunio bodolaeth a maint y tir adran 4(2) a ddangosir ar un neu ragor o fapiau drafft, ac er mwyn trefnu bod copïau archwilio o'r map drafft ar gael yn unol â rheoliad 4(1)(a) a 4(1)(b), neu er mwyn cydymffurfio â chais o'r math y cyfeirir ato yn rheoliad 4(2)(dd), gynhyrchu a chyhoeddi copïau o fapiau drafft sy'n dangos y tir adran 4(2) hwnnw, a gallant fod ar raddfa sy'n llai nag 1:10,000 ond heb fod yn llai nag 1:25,000.

(9) Rhaid i gopïau o fapiau drafft a gynhyrchir o dan baragraff (8):

- (a) dangos yn glir y dosbarthiadau ar dir adran 4(2) a'r nodweddion eraill y cyfeirir atynt ym mharagraff (6) sy'n ymddangos ar y map drafft y maent yn gopïau ohono, ond nid oes angen i'r lliwiau (os oes rhai), y cysgodiad, y llinellau neu'r symbolau eraill a ddefnyddir i wneud hynny fod yn union yr un fath â'r rhai a ddefnyddir at y diben hwnnw ar y map drafft hwnnw;
- (b) peidio â chael eu hystyried yn dystiolaeth am gynnwys y mapiau drafft hynny.

(10) Er mwyn sicrhau bod yr holl mapiau drafft y mae'n eu paratoi mor gywir â phosibl, rhaid i'r Cyngor ddefnyddio unrhyw ddata perthnasol sydd ar gael yn rhesymol iddo.

Dyroddi mapiau drafft

4.-(1) Cymerir bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i ddyroddi map drafft yn unol ag adran 5(a) o'r Ddeddf:

- (a) os yw wedi gwneud unrhyw drefniadau sydd o fewn ei bwer i sicrhau bod copi o'r map drafft sy'n cael ei gynhyrchu o dan reoliad 3(8) ar ffurf brintiedig ac, os yw'n bosibl, ar ffurf electronig, ar gael i'w archwilio gan aelodau o'r cyhoedd ar bob adeg resymol (yn ddarostyngedig, yn achos archwilio mewn swyddfeydd heblaw swyddfeydd ei hun, i unrhyw ofyniad ar gyfer gwneud apwyntiadau i wneud hynny a fynir gan yr awdurdod perthnasol) drwy gydol y cyfnod ymgynghori:
 - (i) ym mhencadlys y Cyngor a swyddfa leol y Cyngor, sef y swyddfa agosaf at yr ardal y mae'r map drafft yn ymwneud â hi heb gynnwys unrhyw swyddfa nad yw'n agored yn ystod oriau swyddfa arferol; a
 - (ii) ym mhencadlys pob awdurdod lleol

(7) The Council may for the purpose of discharging its duty to issue a draft map under section 5(a) of the Act, or for any purpose incidental thereto, produce and publish copies of the draft map in such form, including electronic form, as it may determine and any such copy published by or with the authority of the Council shall be deemed to be identical to the draft map unless the contrary is shown.

(8) The Council shall, for the purpose of illustrating the existence and extent of the section 4(2) land shown on one or more draft maps, and for the purpose of making available for inspection copies of the draft map in accordance with regulation 4(1)(a) and 4(1)(b), or for complying with a request of a kind referred to in regulation 4(2)(f), produce and publish copies of draft maps showing such section 4(2) land, which may be at a scale of less than 1:10,000 but not less than 1:25,000.

(9) Copies of draft maps produced under paragraph (8):

- (a) must clearly identify the classes of section 4(2) land and other features referred to in paragraph (6) which appear on the draft map of which they are copies, but the colours (if any), shading, lines or other symbols used to do so need not be identical to those used for that purpose on that draft map;
- (b) are not to be regarded as evidence of the contents of those draft maps.

(10) The Council must, for the purpose of ensuring that all draft maps which it prepares are as accurate as possible, use such relevant data as is reasonably available to it.

Issue of draft maps

4.- (1) The Council is to be taken to have discharged its duty to issue a draft map in accordance with section 5(a) of the Act when it has:

- (a) made such arrangements as are within its power for a copy of the draft map produced under regulation 3(8) in printed form and, where possible in electronic form, to be available for inspection by members of the public at all reasonable times (subject, in the case of inspection at offices other than its own, to such requirement for the making of appointments to do so as the relevant authority may require) throughout the consultation period at the:
 - (i) head office of the Council and the local office of the Council, which is nearest to the area to which the draft map relates, not including any office which is not open during normal office hours; and
 - (ii) head office of each relevant local authority

perthnasol a phob awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol, os o gwbl;

- (b) os yw wedi anfon copi o'r map drafft a gynhyrchwyd o dan reoliad 3(8) ar raddfa nad yw'n llai nag 1:25,000, naill ai ar ffurf brintiedig neu, os yw'r Cyngor a'r derbynnydd yn cytuno, ar ffurf electronig, ynghyd â hysbysiad sy'n cynnwys yr un wybodaeth ag y mae'n ofynnol ei chynnwys yn yr hysbysiad sydd i'w gyhoeddi o dan is-paragraff (c) o'r paragraff hwn, i bob un o'r cyrff a bennir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn ac i unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol;
- (c) os yw wedi cyhoeddi hysbysiad sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff (2) mewn o leiaf un papur newydd dyddiol sy'n cylchredeg drwy'r rhan gyfan honno o Gymru sy'n cynnwys yr ardal y mae'r map drafft yn ymwneud â hi ac unrhyw bapurau newydd neu gyhoeddiadau eraill sy'n cylchredeg yn y rhan honno o Gymru fel y gwêl y Cyngor yn dda;
- (ch) os yw wedi anfon hysbysiad yn ysgrifenedig neu ar ffurf electronig, sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff (2), at bob un o'r llyfrgelloedd cyhoeddus a restrir yn Atodlen 2, gyda chais bod copi o'r hysbysiad yn cael ei arddangos i'r cyhoedd yn y llyfrgell honno.

(2) Rhaid i hysbysiad sy'n cydymffurfio â gofynion y paragraff hwn:

- (a) nodi'r ardal y mae'r map drafft yn ymwneud â hi;
- (b) datgan mai effaith y map drafft, os yw wedi'i gadarnhau, fydd pennu dros faint o'r tir y bydd y cyhoedd, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a'r cyfyngiadau y mae'r Ddeddf yn darparu ar eu cyfer, yn cael hawl i fynd arno o dan adran 2 o'r Ddeddf pan ddaw'r adran honno i rym;
- (c) datgan na fydd cadarnhau'r map drafft yn rhagfarnu hawl unrhyw berson y mae ganddo fuddiant mewn tir sydd wedi'i gynnwys yn y tir a ddangosir ar y map drafft fel tir adran 4(2) i apelio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn dilyn y cadarnhad hwnnw yn erbyn cynnwys y tir hwnnw;
- (ch) rhoi manylion ynghylch y modd y gall aelodau o'r cyhoedd archwilio copi o'r map drafft;
- (d) rhoi manylion ynghylch y modd y gall aelodau o'r cyhoedd gyflwyno sylwadau i'r Cyngor ynglyn â dangos, neu fethu â dangos, unrhyw ddarn o dir ar y map drafft fel tir agored fel y diffinnir "*open country*" yn y Ddeddf, neu fel tir comin cofrestredig ac esbonio na fydd rhaid i'r Cyngor ystyried y sylwadau hynny ond os ydynt yn dod i law'r Cyngor o fewn y cyfnod ymgynghori ac y dylai unrhyw berson sy'n

and relevant National Park authority, if any;

- (b) despatched a copy of the draft map produced under regulation 3(8) to a scale of not less than 1:25,000 either in printed form or, if the Council and the recipient agree, in electronic form, together with a notice containing the same information as that required to be contained in the notice to be published under sub-paragraph (c) of this paragraph, to each of the organisations specified in Schedule 1 to these Regulations and to such other persons as it considers appropriate;
- (c) published a notice complying with the requirements of paragraph (2) in at least one daily newspaper circulating throughout that part of Wales which includes the area to which the draft map relates and such other newspapers or publications circulating in that part of Wales as the Council thinks fit;
- (d) sent a notice in writing or in electronic form, complying with the requirements of paragraph (2), to each of the public libraries listed in Schedule 2 and accompanied by a request that a copy of the notice be displayed to the public at that library.

(2) A notice complying with the requirements of this paragraph must:

- (a) identify the area to which the draft map relates;
- (b) state that the effect of the draft map, if confirmed, will be to fix provisionally the extent of the land to which the public will, subject to such exceptions and restrictions as the Act provides, be entitled to exercise access under section 2 of the Act when that section comes into force;
- (c) state that confirmation of the draft map will be without prejudice to the right of any person having an interest in land included in the land shown on the draft map as section 4(2) land to appeal to the National Assembly for Wales following such confirmation against its inclusion;
- (d) give particulars of the means by which members of the public may inspect a copy of the draft map;
- (e) give particulars of the means by which members of the public may make representations to the Council as to the showing of, or the failure to show, any area of land on the draft map as open country as defined in the Act or as registered common land and explain that the Council will be obliged to consider such representations only if they are received by the Council within the

cyflwyno sylwadau o'r fath gadw mewn cof y gellir cyhoeddi cynnwys y sylwadau hynny;

- (dd) datgan y gall unrhyw berson y mae ganddo fuddiant mewn unrhyw dir a ddangosir ar y map drafft fel tir adran 4(2), drwy gais ysgrifenedig sy'n dod i law cyn diwedd y cyfnod ymgynghori, ac sy'n nodi natur y buddiant hwnnw a'r tir y mae'n ymwneud ag ef, ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu i'r person hwnnw yn rhad ac am ddim un copi a gynhyrchwyd o dan reoliad 3(8) o'r map drafft neu ddarn o'r map drafft sy'n ymwneud â'r tir hwnnw, a bod rhaid i'r copi hwnnw fod ar ffurf brintiedig neu, os yw'r Cyngor a'r person hwnnw yn cytuno, ar ffurf electronig;
- (e) datgan y cyfeiriad y dylid anfon unrhyw gais o dan is-baragraff (dd) ato;
- (f) pennu'r cyfnod ymgynghori, sef cyfnod nad yw'n llai na thri mis o'r dyddiad y cyhoeddir gyntaf hysbysiad sy'n cydymffurfio â'r paragraff hwn; ac
- (ff) peidio â'i gyhoeddi gyntaf yn gynharach na'r dyddiad y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio, mewn perthynas â'r map drafft y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, â holl ofynion paragraffau (1)(a) ac (1)(b).

(3) Gall unrhyw hysbysiad sy'n cael ei gyhoeddi yn unol â pharagraff (1)(c) neu sy'n cael ei anfon yn unol â pharagraff (1)(ch), yn ychwanegol at unrhyw wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys o dan baragraff (2), gynnwys unrhyw wybodaeth bellach y gwêl y Cyngor yn dda.

Dyletswydd gyffredinol i roi gwybod i'r cyhoedd am ddarpariaethau mapiau drafft

5.-(1) Rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw gamau sy'n rhesymol er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd am ddarpariaethau mapiau drafft a rhoi'r camau hynny ar waith a rhaid iddo ystyried yn benodol a yw'n ddymunol:

- (a) trefnu bod yr wybodaeth sy'n cyfateb i'r wybodaeth a ddangosir ar fapiau drafft ar gael, cyhyd â'i bod yn ymarferol, drwy gyfrwng mapiau ar raddfa lai a gyhoeddir ar unrhyw wefan y mae'n ei chynnal ar y rhyngwyd ; a
- (b) tynnu sylw'r rhai y mae'n ymddangos bod ganddynt fuddiant mewn tir a ddangosir fel tir adran 4(2) ar fap drafft, drwy ba ddull bynnag sy'n briodol, y ffaith bod y map hwnnw wedi'i ddyroddi ac ym mhle y gellir ei archwilio.

(2) Ni fydd y ddyletswydd sy'n cael ei gosod o dan baragraff (1) yn rhagfarnu dyletswyddau'r Cyngor o dan reoliad 4 ond ni fydd unrhyw fethiant ar ran y Cyngor i gyflawni'r ddyletswydd sy'n cael ei gosod gan baragraff (1) mewn perthynas â map drafft yn annylisu

consultation period and that any person making such representations should bear in mind that the terms of those representations may be made public;

- (f) state that any person who has an interest in any land shown on the draft map as section 4(2) land may, by a request in writing received before the end of the consultation period, and identifying the nature of that interest and the land to which it relates, require the Council to provide that person free of charge with one copy produced under regulation 3(8) of the draft map or of an extract from the draft map relating to that land, which copy must be in printed form or, if the Council and that person agree, in electronic form;
- (g) state the address to which any request under sub-paragraph (f) should be sent;
- (h) specify the consultation period, being a period of not less than three months from the date when notice complying with this paragraph is first published; and
- (i) be first published no earlier than the date on which the Council has complied, with respect to the draft map to which the notice relates, with all the requirements of paragraphs (1)(a) and (1)(b).

(3) Any notice published in accordance with paragraph (1)(c) or sent in accordance with paragraph (1)(d) may, in addition to such information as is required to be included under paragraph (2), include such further information as the Council shall think fit.

General duty to inform the public of the provisions of draft maps

5. - (1) The Council must consider and give effect to such steps as are reasonable in order to inform the public of the provisions of draft maps and must in particular consider the desirability of:

- (a) making available, so far as is practicable, information equivalent to that shown on draft maps by means of smaller scale maps published on any website it maintains on the internet; and
- (b) bringing to the attention of those appearing to have an interest in land shown as section 4(2) land on a draft map, by whatever means are appropriate, the fact that such map has been issued and where it can be inspected.

(2) The duty imposed by paragraph (1) is to be without prejudice to the duties of the Council under regulation 4 but any failure on the part of the Council to discharge the duty imposed by paragraph (1) in relation to a draft map is not to invalidate the issue of

dyroddi'r map drafft hwnnw gan y Cyngor neu unrhyw gamau eraill y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu cymryd o dan y Rheoliadau hyn.

Ystyried sylwadau sy'n ymwneud â mapiau drafft

6.-(1) Rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw sylw sy'n dod i'w law o fewn y cyfnod ymgynghori mewn perthynas â dangos, neu fethu â dangos, unrhyw ddarn o dir fel tir agored neu dir comin cofrestredig ar fap drafft os yw'r sylw yn cydymffurfio â gofynion paragraff (2).

(2) Mae sylw yn cydymffurfio â gofynion y paragraff hwn yw:-

- (a) wedi'i gyflwyno yn ysgrifenedig neu ar ffurf electronig;
- (b) yn dwyn enw, cyfeiriad a chod post y person sy'n cyflwyno'r sylw;
- (c) yn cynnwys manylion digonol am y tir y mae'n ymwneud ag ef er mwyn ei gwneud yn bosibl adnabod y tir hwnnw;
- (ch) yn cynnwys unrhyw fanylion i alluogi'r Cyngor i ddeall unrhyw addasiad y mae'r person sy'n cyflwyno'r sylw yn cynnig y dylid ei wneud i'r map drafft; a
- (d) os yw'n cael ei wneud gan berson sy'n honni fod ganddo fuddiant yn y tir y mae'n ymwneud ag ef, yn nodi natur y buddiant hwnnw.

(3) Heb ragfarnu paragraff (4), gall y Cyngor, os yw'n cael unrhyw sylw nad yw'n cydymffurfio â gofynion paragraff (2) am ei fod wedi hepgor gwybodaeth benodol, ofyn i'r person a gyflwynodd y sylw ddarparu unrhyw wybodaeth a hepgorwyd o fewn unrhyw gyfnod pellach y mae'r Cyngor yn ei ganiatáu a rhaid i'r Cyngor, os yw'r wybodaeth honno yn cael ei darparu o fewn y cyfnod hwnnw, ystyried y sylw hwnnw.

(4) Os yw sylw yn methu â chynnwys digon o fanylion am y tir y mae'n ymwneud ag ef i'w gwneud yn bosibl adnabod y tir hwnnw mae'r wybodaeth y gall y Cyngor ofyn amdani o dan baragraff (3) gynnwys map neu blân y mae ffiniau'r tir o dan sylw wedi'u marcio arno.

(5) Gall y Cyngor, yn ôl ei ddoethineb, ystyried unrhyw sylw nad yw'n cydymffurfio â gofynion paragraff (2) neu gyda chais am wybadeth a wnaed o dan baragraff (3), a gall ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill ag y gwêl yn dda.

Cadarnhau map drafft

7.-(1) Gall y Cyngor, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau y mae'n ofynnol iddo eu hystyried o dan ddarpariaethau rheoliad 6(1) neu (2) ynghyd ag

that draft map by the Council or any other action required to be taken by the Council under these Regulations.

Consideration of representations relating to draft maps

6.- (1) The Council must consider any representation received by it within the consultation period with respect to the showing of, or the failure to show, any area of land as open country or registered common land on a draft map if such representation complies with the requirements of paragraph (2).

(2) A representation complies with the requirements of this paragraph if it:-

- (a) is made in writing or in electronic form;
- (b) bears the name, address and postcode of the person making the representation;
- (c) contains sufficient particulars of the land to which it relates as to enable that land to be identified;
- (d) contains such particulars as enable the Council to understand any modification which the person making the representation proposes should be made to the draft map; and
- (e) if made by a person claiming to have an interest in the land to which it relates, identifies the nature of that interest.

(3) Without prejudice to paragraph (4), the Council may, if it receives any representation which, by reason of the fact that it omits certain information, does not comply with the requirements of paragraph (2), request that the person making the representation provide any information omitted within such further period as the Council may allow and the Council must, if such information is provided within such period, consider such representation.

(4) If a representation fails to include sufficient particulars of the land to which it relates to enable that land to be identified the information which the Council may request under paragraph (3) includes a map or plan on which the boundaries of the land in question are marked.

(5) The Council may, in its discretion, consider any representation which does not comply with the requirements of paragraph (2) or any request for information made under paragraph (3), and may consult with such other persons as it may think fit.

Confirmation of draft map

7.-(1) The Council, having considered such representations as it is required to consider under the provisions of regulation 6(1) or (2) together with such

unrhyw sylwadau pellach y mae'n penderfynu eu hystyried, yn ôl ei ddoethineb, o dan reoliad 6(4), gadarnhau'r map drafft gydag addasiadau neu hebddynt.

(2) Os yw'r Cyngor yn cadarnhau'r map drafft heb addasiadau rhaid iddo nodi'r ffaith ar y map drafft ac ar unrhyw gopi o'r map drafft sy'n cael ei wneud ar ôl y cadarnhad hwnnw.

(3) Os yw'r Cyngor yn cadarnhau'r map drafft gydag addasiadau rhaid iddo:

- (a) paratoi map y bydd ei ffurf yn union yr un fath â'r map drafft ac eithrio i'r graddau y mae'n ymgorffori'r addasiadau hynny;
- (b) paratoi datganiad ysgrifenedig sy'n nodi'r addasiadau hynny ac yn ymgorffori datganiad cryno o'r rhesymau dros eu gwneud; ac
- (c) nodi ar y map sy'n cael ei baratoi yn unol ag is-baragraff (a) o'r paragraff hwn ac ar unrhyw gopi o'r map hwnnw y ffaith mai hwnnw sy'n cynrychioli'r map drafft fel y'i cadarnhawyd gydag addasiadau.

(4) Mae cyfeiriadau yn y rheoliad hwn at gadarnhau map yn gyfeiriadau at ei gadarnhau yn unol ag adran 5(c) o'r Ddeddf.

further representations as it decides, in its discretion, to consider under regulation 6(4), may confirm the draft map with or without modifications.

(2) If the Council confirms the draft map without modifications it shall note that fact on the draft map and on any copy of the draft map made after that confirmation.

(3) If the Council confirms the draft map with modifications it must:

- (a) prepare a map which shall be in identical form to the draft map except to the extent that it incorporates those modifications;
- (b) prepare a written statement identifying those modifications and incorporating a concise statement of its reasons for making them; and
- (c) note on the map prepared in accordance with sub-paragraph (a) of this paragraph and on any copy of that map the fact that it represents the draft map as confirmed with modifications.

(4) References in this regulation to the confirmation of a draft map are references to its confirmation pursuant to section 5(c) of the Act.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

13 Rhagfyr 2001

13th December 2001

D.Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

ATODLEN 1

Rheoliad 4(1)(b)

Y CYRFF Y DYLLID YMGYNGHORI Â HWY YN UNOL Â RHEOLIAD 4(1)(B)

Y Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Saethu a Chadwraeth
Cyngor Mynydda Prydain
Cyndeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Yr Asiantaeth Cefn Gwlad (os oes gan dir sydd wedi'i gynnwys mewn map drafft ffin â Lloegr)
Undeb Amaethwyr Cymru
Y Comisiwn Goedwigaeth
Fforymau mynediad lleol perthnasol
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr, Cymru
Awdurdodau parciau cenedlaethol perthansol
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
Cymdeithas y Mannau Agored
Cymdeithas y Crwydwyr
Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yng Nghymru y mae'r ardal y maent yn gyfrifol amdani yn cynnwys tir sydd wedi'i gynnwys mewn map drafft
Awdurodau lleol perthansol
Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys, neu
Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, neu
Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent, neu
Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd
(os ydyw'r ardal y mae'r Ymddiriedolaeth Archeolegol honno yn gyfrifol amdani yn cynnwys tir sydd wedi'i gynnwys mewn map drafft)

SCHEDULE 1

Regulation 4(1)(b)

ORGANISATIONS TO BE CONSULTED PURSUANT TO REGULATION 4(1)(b)

British Association for Shooting and Conservation
British Mountaineering Council
Country Land and Business Association
The Countryside Agency (where land included in a draft map has a border with England)
Farmers' Union of Wales
Forestry Commission
Relevant local access forums
The Ministry of Defence
National Farmers' Union, Wales
National Park authorities in Wales
National Trust Wales
Open Spaces Society
Ramblers' Association
Town and Community Councils in Wales whose area of responsibility covers land included in a draft map
Relevant local authorities
Clwyd-Powys Archaeological Trust, or
Dyfed Archaeological Trust, or
Glamorgan-Gwent Archaeological Trust, or
Gwynedd Archaeological Trust, or
(if the area of responsibility of that Archaeological Trust covers land included in a draft map)

ATODLEN 2

Rheoliad 4(1)(ch)

**LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS Y DYLLID
ANFON HYSBYSIAD IDDYNT YN UNOL Â
RHEOLIAD 4(1)(ch)**

Aberdâr
 Aberystwyth
 Bangor
 Y Barri
 Coed-duon
 Aberhonddu
 Pen-y-bont ar Ogwr
 Bryn-mawr
 Caernarfon
 Caerdydd Canolog
 Aberteifi
 Caerfyrddin
 Cas-gwent
 Bae Colwyn
 Cwmbrân
 Dolgellau
 Sir y Fflint
 Grangetown
 Hwlfordd
 Llandrindod
 Llandudno
 Llanelli
 Llangefni
 Llanrwst
 Maesteg
 Merthyr Tudful
 Castell-nedd
 Casnewydd Canolog
 Y Drenewydd
 Doc Penfro
 Penarth
 Pontypridd

SCHEDULE 2

Regulation 4(1)(d)

**PUBLIC LIBRARIES TO WHICH NOTICE IS
TO BE SENT PURSUANT TO REGULATION
4(1)(d)**

Aberdare
 Aberystwyth
 Bangor
 Barry
 Blackwood
 Brecon
 Bridgend
 Brynmawr
 Caernarfon
 Cardiff Central
 Cardigan
 Carmarthen
 Chepstow
 Colwyn Bay
 Cwmbran
 Dolgellau
 Flintshire
 Grangetown
 Haverfordwest
 Llandrindod Wells
 Llandudno
 Llanelli
 Llangefni
 Llanrwst
 Maesteg
 Merthyr Tydfil
 Neath
 Newport Central
 Newtown
 Pembroke Dock
 Penarth
 Pontypridd

Port Talbot

Pwllheli

Rhuthun

Rhymni

Y Rhyl

Dwyrain Abertawe

Treorci

Wrecsam

Port Talbot

Pwllheli

Rhuthin

Rhymney

Rhyl

Swansea East

Treorchy

Wrexham

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 4001 (Cy.329)

CEFN GWLAD, CYMRU

Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad
(Mapiau Drafft) (Cymru) 2001

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 4001 (W.329)

COUNTRYSIDE, WALES

The Countryside Access (Draft
Maps) (Wales) Regulations 2001

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00

W416/01/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090404-4



9 780110 904047